

Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru 2024/2025

Cynnwys

Rhagarweiniad	3
Datganiad Cadeirydd y CBLl	4
Mwy am Bartneriaeth Pensiwn Cymru	5
Rheoli Cyfuno	7
Risgiau	13
Polisïau a Phrosesau	16
Cynnydd ar Gyfuno	17
Datganiad Cyfrifon a Pherfformiad Ariannol	18
Buddsoddiadau a Pherfformiad	24
Costau Cyfuno ac Arbedion ar Ffïoedd	27
Buddsoddi Cyfrifol	28
Cyfathrebu ac Ymgysylltu	30
Hyfforddiant	31
Diweddglo	32
Manylion Cyswllt	33

Rhagarweiniad

Yn gyntaf, gadewch imi gymryd y cyfle i ddiolch ichi am gymryd yr amser i ddarllen ein Hadroddiad Blynyddol. Mae'r adroddiad yn ffordd ddefnyddiol o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid Partneriaeth Pensiwn Cymru ("PPC") a phawb arall sydd â diddordeb yng ngwaith a gweithgarwch PPC dros y deuddeg mis diwethaf.

Cyn trosglwyddo i Gadeirydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu 2024/25, sef y Cynghorydd Elwyn Williams, a fydd yn rhoi golwg gyffredinol i chi ar rai o uchafbwyntiau PPC dros y flwyddyn ddiwethaf a'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod, roeddwn am roi esboniad byr ynghylch beth yw PPC, beth mae'n ei wneud a chynllun y Llywodraeth ar gyfer cyfuno yn y dyfodol.

Sefydlwyd PPC yn ffurfiol yn 2017 ac mae'n un o wyth Cronfa Fuddsoddi Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL). Ers ei sefydlu, mae PPC wedi galluogi'r Awdurdodau Cyfansoddol i gyfuno tua 75% o'u hasedau, gan sicrhau arbedion cost ac arbedion effeithlonrwydd eraill. Mae PPC yn canolbwyntio ar ddarparu fframwaith buddsoddi sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau i'w randdeiliaid, sef yr Awdurdodau Cyfansoddol ac aelodau sylfaenol eu cronfeydd pensiwn yn y bôn.

Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod Cynnal ac mae'n gyfrifol am nifer o agweddau ar weithrediadau PPC. Mae gan bob Awdurdod Cyfansoddol lais cyfartal o ran cyfeiriad a chamau gweithredu'r gronfa gyfunol, ac mae'r Awdurdod Cynnal yn dibynnu ar gymorth, cyfraniad a chydweithrediad yr holl Awdurdodau Cyfansoddol. Mae cryfder a chynnydd PPC yn deillio o'r lefelau anhygoel o gydweithio ac ymddiriedaeth rhwng yr Awdurdodau Cyfansoddol, ochr yn ochr â'u hymrwymiad di-baid i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i randdeiliaid PPC.

Lansiodd y Llywodraeth ei hymgynghoriad CPLIL: Addas ar gyfer y Dyfodol ar 14 Tachwedd 2024, gan amlinellu amrywiaeth o gynigion i gryfhau'r broses o reoli buddsoddiadau CPLIL mewn tri maes allweddol:

1. Diwygio cronfeydd asedau CPLIL
2. Hybu buddsoddiadau'r CPLIL yn eu hardaloedd a'u rhanbarthau yn y DU
3. Cryfhau trefniadau llywodraethu Awdurdodau Gweinyddu CPLIL a chronfeydd cyfunol CPLIL

Fel rhan o'r ymgynghoriad, gwahoddodd y llywodraeth bob cronfa gyfunol i ystyried a chyflwyno cynigion i ddangos llwybr clir i fodloni'r gofynion a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori. Cafodd cynnig achos busnes PPC ei gymeradwyo gan y Llywodraeth ym mis Ebrill 2025. Mae'r cynnig yn nodi achos busnes cymhellol i PPC barhau fel cronfa fuddsoddi annibynnol ar gyfer Cymru a bwrw ymlaen â chreu'r gofynion newydd ychwanegol a gynigir gan y Llywodraeth ar gyfer y model gweithredu cronfa. Mae hyn yn adeiladu ar lwyddiant PPC hyd yn hyn ac yn dangos gallu PPC i gyflawni ym mhob maes fel cronfa fuddsoddi annibynnol.

Gobeithiaf y bydd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol ichi ac y bydd yn rhoi ymdeimlad ichi o'r cynnydd mawr, y cyflawniadau hyd yn hyn a'r buddion a ddarparwyd trwy'r cydweithio gan Awdurdodau Cyfansoddol Cymru. Cofiwch fod croeso ichi gysylltu â ni, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar Dudalen 33, os oes gennych unrhyw gwestiynau neu adborth.



Yn Gywir,

Chris Moore

Swyddog Adran 151,

Cyngor Sir Caerfyrddin

Datganiad Cadeirydd y CBLl

Croeso i Adroddiad Blynyddol 2024/25 Partneriaeth Pensiwn Cymru, sy'n rhoi adolygiad i chi o'r gwaith y mae PPC wedi'i wneud dros y deuddeg mis diwethaf a'r cynllun ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae'n braf gweld bod 75% o'r asedau bellach wedi'u cyfuno. Er na lansiwyd unrhyw is-gronfeydd newydd yn 2024/25, buddsoddwyd rhagor o gronfeydd yn y gronfa gyfunol ac rydym yn edrych ymlaen at lansiad y rhaglen Buddsoddi Eiddo Tirol, yn 2025/26, a fydd yn cynyddu'r ganran ymhellach. Bydd y rhaglen Eiddo Tirol yn dod â'r hyn a gynigir o ran Marchnadoedd Preifat ar hyn o bryd i ben ac yn ystod 2025/26, bydd PPC yn cynnal diwrnod rheolwyr Marchnadoedd Preifat cyntaf PPC yng Nghaerdydd. Mae diwrnodau rheolwyr ecwiti ac incwm sefydlog yn ddigwyddiadau blynyddol i PPC erbyn hyn, a gynhelir yn Llundain, ac mae'r rhain wedi bod yn llwyddiannus iawn dros y blynyddoedd.

Mae Buddsoddi Cyfrifol yn parhau i fod yn ffocws allweddol i PPC ac ar ôl cwblhau Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan yn 2023/24, aeth PPC ati i ddatblygu nifer o'r argymhellion allweddol yn ystod y flwyddyn a chwblhau ei hadroddiad hinsawdd cyntaf ar lefel y Gronfa Gyfunol. Mae'r gwaith adrodd yn parhau i ddatblygu, ac rydym yn edrych ymlaen at lunio adroddiad Effaith Cymru Gyfan cyntaf PPC yn 2025/26. Mae cynaliadwyedd yn faes ffocws allweddol ac ym mis Tachwedd 2024, roedd PPC yn falch iawn o dderbyn y wobr arloesi ESG yn seremoni Gwobrau Buddsoddi LGC, gan gydnabod llwyddiant ei Chronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy, sydd wedi tyfu i fod yn un o'r cronfeydd buddsoddi cynaliadwy mwyaf o'i math yn y DU. Mae'r Gronfa Gyfunol wedi cadw ei statws llofnodwr o ran Côd Stiwardiaeth Cyngor Adrodd Ariannol y DU am y bedwaredd flwyddyn yn olynol a gallwch weld yr adroddiad Côd Stiwardiaeth, yn ogystal ag adroddiadau eraill, ar wefan PPC.

Mae PPC wedi gwneud nifer o ailbenodiadau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys Waystone fel y gweithredwr, Hymans Robertson fel yr Ymgynghorydd Goruchwylio a Robeco UK fel y darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu. Mae polisïau PPC yn parhau i gael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae sesiynau hyfforddi chwarterol yn parhau i gael eu cynnal. Mae presenoldeb swyddogion, pwyllgorau pensiwn ac aelodau bwrdd yn y sesiynau hyn yn rhagorol.

Y llynedd soniais ein bod yn aros am ganllawiau cyfuno pellach gan y Llywodraeth. Fel y nodwyd gan Chris Moore yn ei gyflwyniad, mae'r Llywodraeth wedi lansio ei hymgynghoriad CPLIL: Addas ar gyfer y Dyfodol ers hynny ac rydym wrth ein bodd bod y Llywodraeth wedi cymeradwyo cynnig achos busnes PPC. Mae gwaith yn cael ei wneud bellach i gyflawni hyn, a hynny'n unol â'r amserlen ofynnol, sef erbyn 31 Mawrth 2026. Roedd pob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol wedi cydweithio'n rhagorol i sicrhau bod y cynnig hwn yn mynd rhagddo ac unwaith eto, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch iddynt i gyd am eu cymorth a'u cyfraniadau parhaus.

Yn olaf, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddweud cymaint o fraint oedd hi i fod yn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Bydd y Cynghorydd Peter Lewis yn cymryd yr awenau ar gyfer 2025/26 a hoffwn ddymuno'r gorau iddo.

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen ein Hadroddiad Blynyddol



Yn gywir,

Y Cynghorydd Elwyn Williams

Cadeirydd Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru 2024/25

Mwy am Bartneriaeth Pensiwn Cymru

Mae PPC, a sefydlwyd yn 2017, yn gydweithrediad rhwng yr wyth cronfa CPLlL (Awdurdodau Cyfansoddol) yn cwmpasu Cymru gyfan ac mae'n un o wyth cronfa Pensiwn Llywodraeth Leol genedlaethol.

Mae gennym hanes hir a llwyddiannus o gydweithio, gan gynnwys enghreifftiau a welwyd cyn menter gyfuno'r Llywodraeth. Rydym yn falch o'n hunaniaeth unigryw fel Cronfa – mae ein Hawdurdodau Cyfansoddol yn cynrychioli a chwmpasu Cymru gyfan. Mae bod yn atebol yn ddemocrataidd yn golygu ein bod yn darparu llywodraethu a thrylowder cryf y sector cyhoeddus ar ei orau.

Bwriedir i'n model gweithredu fod yn hyblyg a darparu gwerth am arian. Rydym wedi penodi Gweithredwr cronfa allanol ac yn defnyddio ymgynghorwyr allanol er mwyn defnyddio'r arbenigedd gorau i gefnogi'r gwaith o redeg y Gronfa, ac mae hyn yn cynnwys Hymans Robertson a benodwyd yn Ymgynghorwyr Goruchwylio PPC. Y Gweithredwr yw Waystone Management (UK) Limited ac maent wedi partneru gyda Russell Investments i ddarparu atebion rheoli buddoddi effeithiol a darparu perfformiad heb ffïoedd ar gyfer yr holl Awdurdodau Cyfansoddol.

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad "Addas ar gyfer y Dyfodol (Fit for the Future)" a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024, mae'r Bartneriaeth wedi sefydlu prosiect i archwilio a gweithredu'r gofynion llywodraethu a busnes er mwyn i'r Bartneriaeth gydymffurfio â chanllawiau'r llywodraeth, sef prosiect a elwir yn Brosiect yr Wyddfa (Project Snowdon).

Wyth Awdurdod Cyfansoddol PPC yw:

- Cyngor Sir Gâr
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Torfaen

Mae gan yr wyth Awdurdod Cyfansoddol weledigaeth gyffredin ac maent yn gytûn ynghylch sut a pha mor gyflym y gwireddir y weledigaeth hon. Mae Credoau PPC yn adlewyrchu natur gydweithredol a gwerthoedd cyffredin yr wyth Awdurdod Cyfansoddol, sef:

- Rôl PPC yw hwyluso a darparu llwyfan cyfuno buddsoddiadau er mwyn gallu gweithredu buddiannau'r Awdurdodau Cyfansoddol.
- Dylai llywodraethu da greu gwell deilliannau i randdeiliaid PPC.
- Mae cydweithio mewnol rhwng y Trefnydd a'r Awdurdodau Cyfansoddol yn hollbwysig er mwyn cyflawni amcanion PPC. Gall cydweithio allanol fod yn fuddiol hefyd er mwyn creu arbedion cost a gwell deilliannau i randdeiliaid.
- Dylai Buddsoddi Cyfrifol a strategaethau effeithiol i leddfu Risg Hinsawdd, ynghyd ag ystyried a rheoli materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ar sail tystiolaeth arwain at well deilliannau i randdeiliaid PPC.
- Mae cyfathrebu mewnol ac allanol effeithiol yn hollbwysig er mwyn cyflawni amcanion PPC.
- Gall cyflenwyr allanol fod yn ffordd gost-effeithiol o gryfhau adnoddau, galluoedd ac arbenigedd PPC.
- Bydd tryloywder ynghylch ffïoedd a chostau yn helpu'r broses gwneud penderfyniadau ac yn cynnig gwell deilliannau i randdeiliaid.

- Bydd dysgu, arloesi a datblygu parhaus yn helpu PPC a'i Hawdurdodau Cyfansoddol i esblygu.
- Bydd agwedd hyblyg at strwythur cronfa a dulliau gweithredu PPC yn galluogi cronfa PPC i addasu yn y dyfodol a pharhau i ddiwallu anghenion ei rhanddeiliaid.

Rhoddwyd lle blaenllaw i gredoau PPC ar frig fframwaith llywodraethu PPC ac fe'u defnyddiwyd i arwain holl weithgareddau a phrosesau gwneud penderfyniadau PPC, gan gynnwys ei hamcanion a'i pholisïau. Amlinellir fframwaith llywodraethu PPC isod, ac mae'r fframwaith hwn yn ceisio sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i benderfyniadau allweddol ac y canolbwyntir adnoddau ar feysydd sydd fwyaf tebygol o gyfrannu at lwyddiant PPC i'r dyfodol:



Mae PPC yn falch o gynrychioli'r wyth Awdurdod Cyfansoddol ac mae'n cydnabod ei dyletswydd i sicrhau y caiff anghenion a gofynion ei rhanddeiliaid eu diwallu. Mae PPC, trwy ymgynghori â'r wyth Awdurdod Cyfansoddol, wedi llunio rhestr o brif amcanion sy'n deillio o'i chredoau cyffredinol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

- Darparu trefniadau cyfuno sy'n galluogi cronfeydd unigol i weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain (lle'n ymarferol).
- Sicrhau arbedion cost gwirioneddol i aelod gronfeydd yn ogystal â gwella neu gynnal perfformiad buddsoddi ar ôl ffïoedd.
- Rhoi trefniadau llywodraethu cadarn ar waith er mwyn goruchwylio gweithgareddau'r Gronfa.
- Gweithio'n agos gyda chronfeydd eraill er mwyn archwilio'r buddion y gallai pob rhanddeiliad yng Nghymru eu mwynhau trwy atebion cyfuno ehangach neu fuddsoddiadau uniongyrchol posib.
- Darparu fframwaith buddsoddi sy'n cynnig y deilliannau gorau i'w phrif randdeiliaid, yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn gallu defnyddio'r fframwaith hwn i sicrhau'r deilliannau gorau i'w Haelod Gynlluniau a Chyflogwyr.
- Ymwreiddio'r gwaith o gyflawni canlyniadau buddsoddi cynaliadwy, hirdymor yn y broses gwneud penderfyniadau, drwy ddyrannu cyfalaf, craffu parhaus ar reolwyr asedau ac arfer yr hawliau a'r cyfrifoldebau sy'n codi fel perchnogion asedau.

Mae'r wyth Awdurdod Cyfansoddol yn cydnabod fod eu nerth yn deillio o'u credoau cyffredin a'u gallu i weithio gyda'i gilydd i gyflawni eu hamcanion cyfunol er lles holl randdeiliaid PPC.

Rheoli Cyfuno

Mae PPC yn gyfrifol am sicrhau ei bod yn cyflawni ei gwaith yn unol â'r gyfraith a safonau priodol. Rhaid iddi sicrhau hefyd y caiff arian cyhoeddus ei ddiogelu ac y cedwir cyfrif priodol ohono, y caiff ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac effeithiol, yn ogystal â sicrhau gwelliant a darpariaeth barhaus i'r perwyl hwnnw.

Mae PPC yn manylu ar sut mae'n delio â phob agwedd o Lywodraethu trwy ei Chytundeb Rhwng Awdurdodau (CRhA), sy'n diffinio safonau, rolau a chyfrifoldebau yr Awdurdodau Cyfansoddol, ei Haelodau, Pwyllgorau a Swyddogion. Mae'r CRhA yn cynnwys Cynllun Dirprwyo sy'n amlinellu'r broses gwneud penderfyniadau, gan roi ystyriaeth i'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae PPC hefyd wedi datblygu Llawlyfr Llywodraethu sydd yn manylu ymhellach ar drefniadau llywodraethu PPC, gan gynnwys ei strwythur, polisïau a gweithdrefnau. Mae hwn ar gael ar wefan PPC.

Yn unol â'i chred y dylai llywodraethu da arwain at well deilliannau i randdeiliaid, mae PPC wedi rhoi strwythur llywodraethu cadarn ar waith, gyda'r bwriad o:



Mae'r diagram isod yn cynnig darlun o strwythur llywodraethu PPC. Mae Matrics Llywodraethu PPC hefyd i'w weld ar ein gwefan. Mae'n cynnig trosolwg cryno o strwythur llywodraethu PPC ac yn amlinellu'r cyrff mewnol sy'n gyfrifol am y prif benderfyniadau a gweithredoedd a gymerir gan y Bartneriaeth.



Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol ar frig strwythur llywodraethu PPC. Maent yn cadw rheolaeth ar holl weithgarwch PPC ac maent yn parhau'n gyfrifol am gymeradwyo Cynllun Busnes PPC, sy'n amlinellu cyllideb a chynllun gwaith PPC, ynghyd â'i Chredoau ac Amcanion. Mae Cynllun Busnes PPC i'w weld ar ein gwefan. Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn chwarae rhan fawr ymhob agwedd ar strwythur llywodraethu PPC, ac mae Cyd-bwyllgor Llywodraethu a Gweithgor Swyddogion PPC yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Awdurdodau Cyfansoddol.

Mae PPC wedi creu nifer o bwyllgorau, grwpiau a rolau fel rhan o'i strwythur llywodraethu, a thrwy wneud hynny mae PPC wedi gallu cyflwyno strwythur llywodraethu cadarn i'w rhanddeiliaid. Yn benodol felly, mae strwythur llywodraethu PPC yn ceisio hyrwyddo;



Ceir Rhagarweiniad byr i bwrpas ac aelodaeth pwyllgorau, grwpiau a rolau PPC isod:

Cyd-bwyllgor Llywodraethu

Ffurfiolwyd Cyd-bwyllgor Llywodraethu (CBLl) PPC ym mis Mehefin 2017 ac yn ystod 2024/25 cyfarfu'r CBLl pedwar gwaith. Mae'r CBLl yn cynnwys un aelod etholedig o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol a chynrychiolydd aelod cyfetholedig (heb bleidlais) o aelodau'r cynllun. Rhaid i'r aelod etholedig fod yn aelod o'r Awdurdod Cyfansoddol hwnnw ac o Bwyllgor Pensiwn yr Awdurdod Cyfansoddol hwnnw.

Mae'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cylchdroi o flwyddyn i flwyddyn. Y Cadeirydd yn ystod 2024/25 oedd y Cynghorydd Elwyn Williams - Cyngor Sir Caerfyrddin (Cronfa Bensiwn Dyfed) a'r Is-gadeirydd oedd y Cynghorydd Medwyn Hyghes – Cyngor Gwynedd (Cronfa Bensiwn Gwynedd).

Mae'r CBLl yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o gyfuno buddsoddiadau'r wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru. Rhestrir y set lawn o gyfrifoldebau'r CBLl yn Atodlen 3 (Materion y CBLl) ac Atodlen 4 (Cylch Gorchwyl y CBLl) y Cytundeb Rhwng Awdurdodau. Mae'r CBLl yn cyflawni rôl allweddol yn cymeradwyo cynigion, polisïau a gweithgareddau neu'n cyflwyno argymhellion i'w hystyried gan yr Awdurdodau Cyfansoddol.

O ystyried pwysigrwydd rôl y CBLl o fewn Strwythur Llywodraethu PPC mae'n hollbwysig fod Aelodau'r CBLl yn dangos lefelau uchel o ymgysylltiad a phresenoldeb. Mae'r lefelau nodedig o ymgysylltiad a phresenoldeb gan Aelodau'r CBLl hyd yn hyn yn adlewyrchiad o'u hymrwymiad i gyfuno ac i lwyddiant hirdymor PPC ond mae'n dangos hefyd barodrwydd ac awydd yr Awdurdodau Cyfansoddol i weithio gyda'i gilydd.

Er mwyn cynorthwyo lefelau ymgysylltu a chydweithio mae Awdurdodau Cyfansoddol Cymru wedi cytuno y caiff cyfarfodydd y CBLl eu cynnal gan yr wyth Awdurdod Cyfansoddol yn eu tro. Yn ystod 2024/25 cynhaliwyd pedwar cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu (JGC) gyda chyfuniad o gyfarfodydd rhithwir a hybrid. Crynhoir yn y tabl isod ddyddiadau, lleoliadau a phresenoldeb JGC ar gyfer 2024/25:

Dyddiad y CBLl:	Lleoliad	Aelodau / dirprwyo Aelodau'r CBLl oedd yn bresennol:
17 Gorffenaf 2024	Yn Rhithwir drwy Zoom	7 cronfa a gynrychiolir, ymddiheuriadau gan Gaerdydd
18 Medi 2024	Hybrid, cynhelir gan Clwyd	Pob un o'r 8 Aelod
10 Rhagfyr 2024	Yn Rhithwir drwy Zoom	Pob un o'r 8 Aelod
12 Mawrth 2025	Hybrid, cynhelir gan Abertawe	Pob un o'r 8 Aelod

Mynychir y cyfarfodydd hyn hefyd gan gynghorwyr allanol PPC a darparwyr gwasanaethau eraill yn ôl y galw. Mae PPC yn ymfalchïo ei bod yn agored a thryloyw a thystiolaeth o hynny yw'r ffaith fod cyfarfodydd y CBLl yn cael eu gwe-ddarlledu'n gyhoeddus, ac mae agenda a chofnodion hefyd ar gael yn gyhoeddus ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Gweithgor Swyddogion

Sefydlwyd Gweithgor Swyddogion PPC (GS) er mwyn darparu cefnogaeth a chyngor i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu. Cyfarfu'r grŵp bedair gwaith yn ystod 2024/25.

Mae'r GS yn cynnwys ymarferwyr a Swyddogion Adran 151 o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol. Cadeirydd y GS yw Chris Moore, Swyddog Adran 151 Cyngor Sir Caerfyrddin (Awdurdod Cynnal). Mae cyfarfodydd y Gweithgor Swyddogion (OWG) yn gyfuniad o gyfarfodydd rhithwir ac wyneb yn wyneb a gynhelir yng Nghaerdydd gyda dau gyfarfod rhithwir a dau wyneb yn wyneb wedi'u cynnal yn ystod 2024/25.

Mae gan y GS, fel y CBLl, lefelau ymgysylltu a phresenoldeb uchel. Mae o leiaf un cynrychiolydd o bob Awdurdod Cyfansoddol yn bresennol yn holl gyfarfodydd y GS ac mae'n gyffredin gweld y Swyddog Adran 151 ac Ymarferydd ar gyfer yr wyth Awdurdod Cyfansoddol yn bresennol.

Mae darparwyr ac ymgynghorwyr allanol PPC hefyd yn mynychu cyfarfodydd y GS ac maent yn darparu cefnogaeth neu gyngor pan mae angen. Ar hyn o bryd mae Gweithredwr, Ymgynghorydd Goruchwylio a Darparwr Atebion Rheoli Buddsoddi PPC yn mynychu holl gyfarfodydd y GS. Hefyd, gwahoddir partïon eraill megis LAPFF, bfinance a chynrychiolwyr Archwilio Cymru i fynychu cyfarfodydd y GS pan fydd angen.

Yn ogystal â chyfarfodydd y GS, mae aelodau'r GS yn cymryd rhan mewn gyfarfodydd rhithwir bob pythefnos. Defnyddir y cyfarfodydd rhithwir i ddelio ag unrhyw faterion sy'n codi rhwng cyfarfodydd ffurfiol y GS. Fe'u defnyddir hefyd i gyflawni gwaith rhwng cyfarfodydd y GS. Mae'r galwadau hyn yn gyfle amhrisiadwy i gyflawni gwaith a meithrin cydweithio rhwng yr Awdurdodau Cyfansoddol a chyflenwyr PPC.

Mae'r PPC hefyd wedi sefydlu nifer o 'is-grwpiau'; yn gyffredinol caiff yr is-grwpiau hyn eu creu i weithredu neu ddatblygu rhai elfennau o gynllun gwaith PPC. Mae pob un o'r is-grwpiau'n cael eu ffurfio o un o is-adrannau'r GS ac maent yn gyfrifol am adrodd yn ôl yn ffurfiol i'r GS yn ei grynswth. Mae enghreifftiau diweddar o is-grwpiau PPC yn cynnwys;

- Is-grŵp Marchnadoedd Preifat – sy'n gyfrifol am ffurfio a datblygu Is-gronfa Marchnadoedd Preifat PPC.
- Is-grŵp y Gofrestr Risg - sy'n gyfrifol am gynnal Cofrestr Risg PPC ac adrodd ynghylch unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r GS a'r CBLl yn chwarterol.
- Yr Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol – sy'n gyfrifol am oruchwylio'r holl faterion Buddsoddi Cyfrifol yn PPC, gan gynnwys datblygu ac adolygu polisïau, adroddiadau allanol, a chraffu / goruchwylio.

Awdurdod Cynnal

Penodwyd Cyngor Sir Caerfyrddin yn Awdurdod Cynnal ar gyfer PPC. Mae'r Awdurdod Cynnal yn gyfrifol am ddarparu cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddol i'r CBLl a'r GS, a chysylltu o ddydd i ddydd â'r Gweithredwr ar ran yr holl gronfeydd CPLlL yng Nghymru. Esbonnir rôl yr Awdurdod Cynnal yn Adran 6 yr CRhA.

Mae rôl yr Awdurdod Cynnal yn allweddol i effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y PPC, ac mae'n gyfrifol am reoli'r Gronfa o ddydd i dydd ac mae'n cymryd perchnogaeth o reoli a hybu gweithgareddau ac ymdrechion PPC. Mae maint a natur y Gronfa yn golygu fod yr Awdurdod Cynnal yn gyfrifol am ystod eang o weithgareddau a chyfrifoldebau sy'n newid yn gyson, yn cynnwys trefnu a hwyluso sesiynau Hyfforddiant PPC i lunio a chyflwyno adroddiadau 'Diweddariadau Cyfuno' PPC i'r Adran Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Yr Awdurdod Cynnal yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer unrhyw gwestiynau ynghylch PPC ac mae hefyd yn gyfrifol am ofalu am ddulliau cyfathrebu (e.e. y wefan a LinkedIn). Mae gan yr Awdurdod Cynnal dîm mewnol mawr ar gael iddo er mwyn defnyddio adnoddau ac arbenigedd i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldebau. Aelodau craidd tîm yr Awdurdod Cynnal yw Chris Moore, Anthony Parnell a Tracey Williams.

Swyddog Monitro

Cyflawnir Rôl Swyddog Monitro yn yr Awdurdod Cynnal (Cyngor Sir Caerfyrddin). Mae'r Swyddog Monitro yn gyfrifol am gynnal y CRhA i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r gofynion deddfwriaethol diweddaraf ac anghenion Llywodraethu PPC ac mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r darpariaethau ar bob lefel. Mae'r Swyddog Monitro hefyd yn mynychu holl gyfarfodydd y CBLl.

Mae'r Swyddog Monitro mewn sefyllfa dda i chwarae rôl ragweithiol yn cefnogi Aelodau a Swyddogion mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol i gydymffurfio â'r gyfraith a chyda gweithdrefnau PPC ei hun. Fel y Pennaeth

Gwasanaeth a chanddi'r cyfrifoldeb eithaf am yr Uned Gwasanaethau Democrataidd, mae'r Swyddog Monitro hefyd yn gyfrifol am gofnodi a chyhoeddi'n ffurfiol y broses wneud penderfyniadau ddemocrataidd.

Mae'r Swyddog Monitro yn gweithio'n agos â'r Swyddog Adran 151 yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ac yn adrodd i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu os yw'n credu y bydd unrhyw gynnig yn arwain at anghyfreithlondeb.

Swyddog Adran 151

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r swyddog sy'n gyfrifol am weinyddu materion PPC o dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 a chanddo ef y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am weinyddiaeth ariannol PPC.

Waystone Management (UK) Ltd (Y Gweithredwr)

Mae PPC wedi llunio model gweithredu sy'n hyblyg ac all ddarparu gwerth am arian. Penodwyd Waystone Management (UK) Ltd (Waystone) yn Weithredwr allanol, a chyda chefnogaeth Russell Investments, byddant yn gweithredu atebion rheoli buddsoddi effeithiol ac yn darparu perfformiad cryf heb gynnwys ffîoedd ar gyfer yr Awdurdodau Cyfansoddol.

Mae Cytundeb Gweithredwr ar waith gyda Waystone sy'n amlinellu dyletswyddau contractiol y Gweithredwr ac sy'n rheoli'r berthynas rhwng y Gweithredwr a PPC. Mae'r CBLl a'r GS, gyda chefnogaeth ei Ymgynghorydd Goruchwylio, yn goruchwylio'r gwaith y mae Waystone yn ei wneud ar ran PPC. Mae Protocolau Ymgysylltu Gweithredwr PPC wedi'u cael eu rhoi ar waith hefyd i sicrhau bod lefelau digonol o ymgysylltu uniongyrchol rhwng y Gweithredwr a'r Awdurdodau Cyfansoddol unigol.

Mae Waystone yn darparu ystod eang o wasanaethau ar gyfer PPC, sy'n cynnwys:

- Hwyluso Dulliau Buddsoddi ac Is-gronfeydd
- Adrodd ar berfformiad
- Gweithredu trosglwyddiadau
- Monitro rheolwyr a negydiadau ar ffîoedd
- Adrodd ar risgiau
- Monitro Camau Dosbarth
- Darparu digwyddiadau a chyfarfodydd unigol i ddarparu addysg a hyfforddiant

Russell Investments (Darparwr Atebion Rheoli Buddsoddi)

Ar y cyd â Waystone, mae Russell Investments yn darparu atebion rheoli buddsoddi i PPC. Ynghyd â Waystone, gweithiant trwy ymgynghoriad ag wyth Awdurdod Cyfansoddol PPC i sefydlu dulliau buddsoddi. Mae cylch gorchwyl Russell yn cynnwys cynghori Waystone a PPC ar arbedion wrth adeiladu portffolio sy'n cynnwys dewis rheolwr. Mae Waystone yn parhau i weithio gyda Russell Investments, lle'n berthnasol, i leihau costau PPC ymhellach trwy strwythurau aml-reolwr, atebion rheoli ariannau, troshaenau portffolio, rheoli trosglwyddiadau a gwasanaethau gweithredol eraill.

Hymans Robertson (Yr Ymgynghorydd Goruchwylio)

Penodwyd Hymans Robertson yn Ymgynghorwyr Goruchwylio ar gyfer PPC. Mae rôl Hymans Robertson yn cwmpasu gwaith trosolwg a chyngor ar drefniadau llywodraethu, gwasanaethau gweithredwr, agweddau buddsoddi strategol a chymorth gyda rheoli prosiectau. Maent yn mynychu holl gyfarfodydd y GS a'r CBLI.

Burges Salmon (Ymgynghorydd Cyfreithiol)

Mae Burges Salmon yn darparu cyngor cyfreithiol yn ôl y galw. Mae cylch gorchwyl Burges Salmon yn cynnwys darparu arbenigedd ar gronfeydd a reoleiddir gan yr FCA, treth, caffael sector cyhoeddus a llywodraeth leol. Hefyd, mae Burges yn cynghori ar drefniadau llywodraethu, adeiladu manylebau caffael cymhleth, cynghori ar y broses gaffael a meini prawf gwerthuso. Maent hefyd yn cefnogi PPC i gwblhau cytundebau cyfreithiol a llunio ceisiadau prosbectws yr FCA.

Northern Trust (Y Gwarcheidwad)

Mae Northern Trust yn darparu gwasanaethau sy'n cynnwys benthyciadau gwarannau, gweinyddu cronfeydd, monitro cydymffurfiaeth ac adrodd ar gyfer PPC.

Robeco UK (Darparwr Pleidleisio drwy Ddirprwy ac Ymgysylltu)

Penodwyd Robeco UK yn ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC a byddant yn cynorthwyo PPC i lunio a chynnal Polisi Pleidleisio ac Egwyddorion Ymgysylltu sy'n gydnaws ag aelodaeth Awdurdodau Cyfansoddol Cymru o Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol ('LAPFF'). Bydd Robeco yn cymryd cyfrifoldeb hefyd am weithredu'r Polisi Pleidleisio ar draws portffolio PPC.

Risgiau

Mae PPC yn cydnabod ei bod yn wynebu nifer o risgiau allai, heb eu rheoli, gyfyngu gallu PPC i gyflawni ei hamcanion a gweithredu er lles gorau ei rhanddeiliaid a buddiolwyr. Fodd bynnag, mae PPC yn deall hefyd na ellir lliniaru rhai risgiau yn llwyr, ac mewn sefyllfaoedd felly fod angen derbyn risgiau trwy reolaeth weithredol ac effeithiol.

Mae rheoli risgiau yn rhan allweddol o ymrwymiad PPC i lywodraethu da, ac mae PPC wedi datblygu strategaeth risg drefnus, gynhwysfawr a chadarn. Caiff y strategaeth hon ei gwreiddio yn fframwaith llywodraethu PPC i sicrhau proses gwneud penderfyniadau well, gwell deilliannau i randdeiliaid a gwell effeithlonrwydd.

Mae'r Bartneriaeth yn ymwybodol iawn o'r bygythiadau petai diogelwch seibr yn cael ei dorri a phwysigrwydd diogelwch data. Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin, fel Awdurdod Lletya PPC, fframwaith cadarn ar waith i sicrhau diogelwch ei rwydwaith a'i systemau gwybodaeth. Mae gan y Cyngor hefyd Gynllun Ymateb Digwyddiad Seibr manwl, sy'n amlinellu gweithdrefnau ar gyfer paratoi, nodi, cyfyngu ac ymateb i ddigwyddiadau seibr, sicrhau parhad busnes a chadw tystiolaeth. Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn cadw'r cyfrifoldeb dros ddata aelodau unigol ar gyfer eu Cronfeydd Pensiwn CPLIL eu hunain.

Mae strategaeth risg PPC yn ceisio adnabod a mesur risgiau allweddol a sicrhau bod rheolaethau addas a gweithdrefnau llywodraethu ar waith i reoli'r risgiau hyn. Mae PPC yn credu fod risgiau yn hylifol eu natur ac y gall difrifoldeb a thebygolrwydd risgiau newid yn gyflym a heb rybudd da. Er mwyn adlewyrchu'r gred hon, datblygwyd Polisi Risg PPC mewn ffordd sy'n ein galluogi i ragweld risgiau a delio â nhw mewn ffordd gyflym ac effeithiol er mwyn lleihau unrhyw golledion neu niwed posib i PPC a'i rhanddeiliaid. Mae'r Polisi Risg yn amlinellu sut rydym yn nodi, yn rheoli ac yn monitro risgiau.

Yn ogystal, rydym wedi llunio cofrestr risg i fonitro a rheoli risgiau posibl ac mae Is-grŵp Risg penodedig (sy'n cynnwys swyddogion o'r Awdurdodau Cyfansoddol ac Ymgynghorydd Goruchwylio PPC, sef Hymans Robertson) wedi'i sefydlu i gynnal a gwerthuso Cofrestr Risg PPC bob chwarter.

Er mwyn cyflawni ei hamcanion, mae angen i PPC gynnal gweithgareddau neu gymryd cyfleoedd sy'n creu risg iddi. Bydd i ba raddau y gall PPC gydbwyso risg ac enillion yn effeithiol yn dibynnu ar lwyddiant ei Pholisi Risg. Cyn gwneud penderfyniadau, mae'n hollbwysig fod PPC yn deall y risgiau dan sylw ac yn ystyried sut ellid rheoli'r risgiau hyn. Bydd proses effeithiol o adnabod, deall, rheoli a monitro'r risgiau hyn yn galluogi PPC i:



Y risg fwyaf i allu PPC i barhau i weithredu yw ei gallu i gyflawni ei phrif amcanion. Mae Cynllun Busnes PPC yn ddull ychwanegol y gall PPC ei ddefnyddio i roi cydnabyddiaeth arbennig i risgiau sy'n creu bygythiad gwirioneddol i'w gallu i gyflawni ei hamcanion a'r camau sydd eu hangen i reoli'r risgiau hyn.

Mae strategaeth reoli fanwl a chynllun gweithredu ar waith i reoli'r risgiau. Mae un o'r risgiau a ystyriwyd yn sylweddol y llynedd, sef Risg G.15, 'Nid yw PPC yn barod ar gyfer deilliannau unrhyw ymgynghoriad neu newid rheoleiddiol', bellach yn cael ei hystyried yn risg sylweddol oherwydd mae'r ymgynghoriad diweddaraf gan y llywodraeth wedi profi bod y rheolaethau risg sydd ar waith wedi sicrhau bod y Bartneriaeth wedi paratoi'n dda ar gyfer canlyniad yr ymgynghoriad a newid rheoleiddio.

Ar hyn o bryd, y risgiau mwyaf arwyddocaol i PPC (risgiau sydd â sgôr risg o 10 neu fwy a lle mae'r sgôr risg bresennol yn fwy na'r sgôr risg darged) yw:

- Methiant Is-gronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru i sicrhau eu henillion buddsoddi a dargedwyd (Risg I.1)
- Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â hwyluso atebion buddsoddi sy'n galluogi'r Awdurdodau Cyfansoddol i fodloni eu strategaeth a'u hamcanion buddsoddi (Risk I.9)
- Ni ellir cysoni gwahaniaeth barn neu safbwyntiau o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru (Risg G.9)
- Nid yw Prosiect yr Wyddfa yn cwrdd â'r amserlenni a'r gallu cyflawni a nodir yn ymgynghoriad y Llywodraeth ac achos busnes dilynol PPC (Risg G.16), risg newydd yn 2024/25

Yn ystod y deuddeg mis nesaf, bydd PPC yn blaenoriaethu'r gwaith o reoli'r risgiau hyn gyda'r nod o leihau'r posibilrwydd y bydd y risgiau hyn yn digwydd a'r effaith y gallant ei chael ar PPC. Mae'r tabl isod yn crynhoi sut mae'r risgiau hyn yn cael eu rheoli ar hyn o bryd ac yn amlinellu pa gamau a fydd yn cael eu cwblhau yn ystod y 12 mis nesaf.

Risg:	Strategaeth Reoli Bresennol:	Camau dros y 12 mis nesaf:
Methiant Is-gronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru i sicrhau eu henillion buddsoddi a dargedwyd.	• Monitro yn barhaus berfformiad buddsoddiadau, datblygiadau yn y farchnad a rhagolygon economaidd a adroddir gan y Rheolwr Buddsoddi a'r Gweithredwr ac a drafodir mewn cyfarfodydd y Gweithgor Swyddogion • Meincnodi'r is-gronfeydd bob tair blynedd • Adolygiad cyfnodol o Russell Investments gan y Ymgynghorydd Arolygiaeth • Adrodd yn chwarterol ar risgiau hinsawdd a risgiau ESG • Matrics cyfrifoldebau ACS mewn lle. • Ymgysylltiad y Gweithredwr/ y Rheolwr Buddsoddi â Rheolwyr Buddsoddi ac adolygiadau parhaus o'u proses • Diwrnodau rheolwyr wedi'u cynnal gan y Gweithredwr / y Rheolwr Buddsoddi ar gyfer y Gweithgor Swyddogion / Pwyllgorau Cronfeydd Pensiwn yr Awdurdodau Cyfansoddol	• Mae rheolaethau ychwanegol wedi'u cynnwys yng nghynllun gwaith 2024/25. • Parhau i fonitro'r enillion buddsoddi dros y 12 mis nesaf.
Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â hwyluso atebion buddsoddi sy'n galluogi'r Awdurdodau Cyfansoddol i fodloni eu strategaeth a'u	• Mae datblygu is-gronfeydd pellach yn eitem sy'n cael blaenoriaeth yng nghynllun busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru • Ymgynghori aml ag Awdurdodau Cyfansoddol ar eu gofynion • Ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol ar addasrwydd parhaus is-gronfeydd presennol • Defnyddio cynghorwyr niferus i greu is-gronfeydd	• Cynyddodd y sgôr tebygolrwydd oherwydd ymgysylltiad cynyddol gan y lywodraeth newydd a'r canlyniadau disgwyliedig. I fonitro dros y 12 mis nesaf.

hamcanion buddsoddi	• Cynghorydd Goruchwylio ar gael i oruchwylio strategaeth fuddsoddi a dyluniad is-gronfeydd • Archwiliadau cadw cydbwysedd niferus ar y broses o wneud penderfyniadau a chymeradwyo'r strategaeth fuddsoddi ac is-gronfeydd • Dogfen adolygu'r is-gronfeydd yn ei lle	
Ni ellir cysoni gwahaniaeth barn neu safbwyntiau o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru.	• Lefelau uchel o gyfathrebu rhwng y rhai sy'n gwneud penderfyniadau (a'r Awdurdodau Cyfansoddol) • Set wedi'i godio o amcanion a chredoau cytunedig/unedig PPC • Cyfarfodydd rheolaidd wedi'u trefnu, a chyfarfodydd ad hoc os oes eu hangen, i hwyluso'r broses o rannu a chysoni safbwyntiau (er enghraifft drwy gyfarfodydd yr is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol) • Cynghorydd Goruchwylio ar gael i gynnig cyngor ar strwythur llywodraethu • Ymgysylltu â chyrff perthnasol ar ganllawiau llywodraethu da ac arfer gorau • Adolygiad parhaus o'r strwythur llywodraethu • Proses ddemocrataidd o wneud penderfyniadau ar waith • Proses uwchgyfeirio eglur ar waith i gael cydsyniad os na ellir dod i gytundeb cilyddol	Mae gan y Bartneriaeth fesurau rheoli effeithiol ar waith, fodd bynnag, disgwylir y bydd senarios pellach, yn enwedig o amgylch y pethau sydd i'w cyflawni dan Brosiect yr Wyddfa a allai brofi'r risg hon, felly bydd y sgôr risg yn aros ar 15 tan y cyfarfod adolygu nesaf yn Ch2 2026.
Nid yw Prosiect yr Wyddfa yn cwrdd â'r amserlenni a'r gallu cyflawni a nodir yn ymgynghoriad y Llywodraeth ac achos busnes dilynol PPC.	• Ymgysylltu parhaus â'r Llywodraeth • Strwythur llywodraethu prosiectau gan gynnwys Grŵp Llywio wedi'i sefydlu • Cynllun prosiect manwl gyda cherrig milltir, tasgau, dyddiadau a pherchnogion allweddol wedi'u sefydlu a'u monitro yn rheolaidd • Cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i ddatblygu a'i fonitro'n rheolaidd • Prosesau llywodraethu a chymeradwyo yn yr Awdurdod Cyfansoddiadol wedi'i sefydlu (gyda mewnbwn gan Gynghorwyr Cyfreithiol) • Cofrestr risg prosiect wedi'i sefydlu a'i monitro yn rheolaidd	• Mae'r amserlenni a chyfaint y gweithgareddau sydd i'w cwblhau er mwyn dod yn gwbl weithredol fel Cwmni a reoleiddir gan yr FCA erbyn 1 Ebrill 2026 yn parhau i fod yn heriol. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r rheolaethau risg presennol, mae'r Bartneriaeth yn gyfforddus bod prosiect yr Wyddfa yn mynd rhagddo yn unol â'r cynllun prosiect a'i fod 'ar y trywydd iawn'. • Mae'r sgôr tebygolrwydd presennol o 3, uwchlaw'r targed o 2, oherwydd y nifer o gerrig milltir critigol y mae angen eu bodloni i gyrraedd dyddiad gorffen y prosiect.

Mae Polisi Risg a Chofrestr Risg PPC ar gael yn gyhoeddus ar wefan PPC.

Polisïau a Phrosesau'r

Mae PPC yn credu y dylai llywodraethu da arwain at well deilliannau i randdeiliaid PPC. Gan gydnabod y gred hon, mae PPC wedi neilltuo adnoddau i ddatblygu strwythur llywodraethu cadarn a helaeth. Mae rhan allweddol o strwythur llywodraethu PPC yn canolbwyntio ar ddatblygu polisïau a gweithdrefnau, trwy ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol. Cafodd holl bolisïau a gweithdrefnau PPC eu datblygu bob tro naill ai i ychwanegu at neu gymryd lle gweithdrefnau a pholisïau presennol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Mae PPC yn deall pwysigrwydd llunio a chyfundrefnu ei pholisïau a gweithdrefnau. Mae'r broses hon yn galluogi PPC, a'r Awdurdodau Cyfansoddol, i:



Rhestrir prif bolisïau, cofrestri a chynlluniau PPC isod ac maent i'w gweld ar wefan PPC. Caiff y polisïau a'r gweithdrefnau a amlinellir isod eu hadolygu yn rheolaidd a bydd PPC yn parhau i asesu a oes angen unrhyw bolisïau, cofrestri neu gynlluniau ychwanegol.



Cynnydd ar Gyfuno

Mae PPC yn ceisio darparu atebion buddsoddi sy'n galluogi'r Awdurdodau Cyfansoddol i weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain gan wneud arbedion cost sylweddol a pharhau i ddarparu perfformiad buddsoddi i'w rhanddeiliaid. Gwnaethom gynnydd arwyddocaol ers 2017 gyda 75% o asedau dan reolaeth y pwll ar 31 Mawrth 2025, fel y gwelir isod:

% o'r asedau o dan reolaeth y pwll			
31 Mawrth 2018	21%	31 Mawrth 2022	72%
31 Mawrth 2019	44%	31 Mawrth 2023	70%
31 Mawrth 2020	47%	31 Mawrth 2024	74%
31 Mawrth 2021	68%	31 Mawrth 2025	75%

Mae'r 75% hwn wedi'i fuddsoddi mewn nifer o ddosbarthiadau asedau, gweler siart isod:



Mae mwy o fanylion am y Buddsoddiadau i'w gweld ar dudalen 24 (adran Buddsoddiadau a Pherfformiad).

Mae'n dda gweld fod yr wyth Awdurdod Cyfansoddol wedi defnyddio o leiaf un o'r is-gronfeydd, gyda'r wyth yn buddsoddi yn y gronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy. Mae'r cynnydd ar gyfuno hyd yn hyn wedi sicrhau bod PPC wedi gallu darparu buddion maint arwyddocaol i'r Awdurdodau Cyfansoddol trwy arbedion cost a gwell gwerth am arian. Trowch at dudalen 27 i gael mwy o fanylion.

Mae PPC yn parhau i ymgynghori ag Awdurdodau Cyfansoddol i adolygu a datblygu mecanweithiau i gronni unrhyw asedau sydd heb eu cronni.

Datganiad Cyfrifon a Pherfformiad Ariannol

Y GYLLIDEB

Mae'r tabl canlynol yn dangos gwariant gwirioneddol PPC yn ystod 2024/25 o gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer y flwyddyn, gan nodi unrhyw amrywiannau. Cymeradwywyd y Gyllideb gan gyfarfod y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar 13 Mawrth 2024 ac wedi hynny gan bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol.

Partneriaeth Pensiwn Cymru 2024/25	Cyllideb (£)	Gwirioneddol (£)	Amrywiant (£)
Gwariant Gros			
Costau gweithwyr [1]	116,000	71,169	44,831
Costau'r Awdurdod Cynnal [2]	24,700	23,867	833
Gwasanaethau Cymorth yr Awdurdod Cynnal [3]	91,108	91,108	0
Cyfanswm Gwariant Gros yr Awdurdod Cynnal [4]	**231,808**	**186,144**	**45,664**
Ymgynghorwyr Allanol [5]	1,410,795	1,739,484	(328,689)
Cyfanswm Gwariant Gros	**1,642,603**	**1,925,628**	**(283,025)**

Nodiadau:

1. Mae hyn yn cynnwys staff a gyflogwyd i weithio'n llwyr i PPC. Mae'r Gyllideb yn cynnwys Uwch-swyddog Gwasanaethau Ariannol (1fte) a Chyfrifydd Cynorthwyol (1fte)
2. Mae'r costau hyn yn cynnwys costau teithio staff, cynhaliaeth a chostau cyfarfodydd, gweinyddol, deunyddiau swyddfa a gweithredol, gwefan (costau datblygu a pharhaus), ffïoedd archwilio a gwasanaethau cyfieithu.
3. Mae'r rhain yn ailgodiadau tâl canolog gan yr Awdurdod Cynnal ac maent yn cynnwys costau a ddosrannwyd ar gyfer y Swyddog Adran 151, y Swyddog Monitro, Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a chymorth Eiddo ac Adnoddau Dynol
4. Caiff cyfanswm gwariant yr Awdurdod Cynnal ei ariannu'n gyfartal gan yr wyth Cronfa Bensiwn ac ailgodir tâl amdanynt yn flynyddol
5. Mae Ymgynghorwyr Allanol yn cynnwys Ymgynghorwyr Buddsoddi a Chyfreithiol, ac mae'r costau hyn hefyd yn cael eu hariannu gan yr wyth Cronfa Bensiwn.

Roedd yna gorwariant o £283m am y flwyddyn, oedd yn deillio'n bennaf o'r gwaith ychwanegol a wnaed gan ymgynghorwyr allanol PPC mewn perthynas â Phrosiect yr Wyddfa.

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR (CIES)

Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwyfawr hwn yn dangos y gost cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

2023/24 (£)	Disgrifiad	2024/25 (£)
	Gwariant	
68,510	Costau gweithwyr	71,169
20,165	Costau Awdurdod Cynnal	23,867
1,631,481	Costau Ymgynghorwyr Allanol *	1,739,484
85,427	Costau Gwasanaethau Cymorth Awdurdod Cynnal	91,108
1,805,583	**Cyfanswm Gwariant Gweithredu**	**1,925,628**
	Incwm	
(1,805,583)	Taliadau a Ailgodir ar Awdurdod Cyfansoddol **	(1,925,628)
(1,805,583)	**Cyfanswm Incwm Gweithredu**	**(1,925,628)**
0	**Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**	**0**

* Ariennir y costau hyn gan bob un o'r wyth Cronfa CPLIC yn gyfartal, ac fe ailgodir y costau hyn yn flynyddol.

MANTOLEN

Mae'r Fantolen yn dangos asedau a rhwymedigaethau'r Bartneriaeth fel ar 31 Mawrth 2025.

31 Mawrth 2024 (£)	Disgrifiad	31 Mawrth 2025 £
	Asedau Cyfredol	
944,947	Dyledwyr Tymor Byr	942,108
944,947	**Cyfanswm Asedau Cyfredol**	**942,108**
	Rhwymedigaethau Cyfredol	
(819,845)	Arian Parod a'r hyn sy'n gyfwerth	(601,132)
(125,102)	Credydwyr Tymor Byr	(340,976)
(944,947)	**Cyfanswm Rhwymedigaethau Cyfredol**	**(942,108)**
0	**Cyfanswm Net Asedau**	**0**

DATGANIAD LLIF ARIAN

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod a'r hyn sydd gyfwerth gan PPC yn ystod y cyfnod adrodd.

2023/24 (£)	Disgrifiad	2024/25 (£)
	Llif arian o weithgareddau gweithredu	
0	Net (gwarged) / diffyg yn narpariaeth gwasanaethau	0
	Addasiadau ar gyfer:	
(215,372)	Gostyngiad mewn masnach a dyledwyr eraill	2,839
(16,234)	Cynnydd mewn masnach a chredydwyr eraill	215,874
(231,606)	**Arian parod Net o weithgareddau gweithredu**	**218,713**
	Net (Cynnydd) / Lleihad mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth	
(588,238)	Arian Parod a'r hyn sy'n gyfwerth fel ar 1 Ebrill	(819,845)
(819,845)	Arian Parod a'r hyn sy'n gyfwerth fel ar 31 Mawrth	(601,132)
(231,606)	**Arian Parod a'r hyn sy'n gyfwerth fel ar 31 Mawrth**	**218,713**

NODIADAU AR Y CYFRIFON

Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

Cyffredinol

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion PPC ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 a'i sefyllfa ariannol diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2025. Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu a ddefnyddir wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn yn cael eu hamlinellu isod. Mae'r polisïau hyn wedi cael eu defnyddio'n gyson ar gyfer yr holl gyfnodau a gyflwynwyd, oni nodir yn wahanol.

Busnes Gweithredol

Mae'r Datganiadau Ariannol wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

Croniadau Incwm a Gwariant

Mae'r Datganiadau Ariannol wedi cael eu paratoi dan y cysyniad Croniadau o gyfrifyddu sydd angen adnabod incwm a gwariant yn y cyfnodau cyfrifyddu y maent yn ymwneud â hwy yn hytrach nag ar sail arian parod.

Arian Parod a'r hyn sy'n gyfwerth

Nid yw'r Bartneriaeth ei hun yn gweithredu nac yn rheoli ei chyfrif banc unigol. Yn ei rôl fel Awdurdod Cynnal, Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n gweinyddu'r holl drafodion arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ar ran PPC.

Darpariaethau, Asedau Amodol a Rhwymedigaethau

Nid yw PPC wedi adnabod unrhyw ddarpariaethau, asedau amodol na rhwymedigaethau amodol yn y cyfrifon.

Treth ar Werth (TAW)

Dangosir trafodion net o Dreth ar Werth, rhoddir cyfrif am bob TAW gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Buddion Gweithwyr

Mae gweithwyr uniongyrchol sy'n cefnogi gweithgareddau PPC yn cael eu cyflogi dan gytundeb gan Gyngor Sir Caerfyrddin, gyda chefnogaeth ychwanegol yn cael ei darparu gan Sir Gaerfyrddin ar fethodoleg ailgodi tâl. Datgelir costau cydnabyddiaeth gweithwyr yn Natganiadau Ariannol Cyngor Sir Caerfyrddin.

Buddsoddiadau

Ni ddelir unrhyw fuddsoddiadau yn uniongyrchol gan PPC. Mae'r is-gronfeydd a agorwyd fel rhan o'r trefniant cyfuno yn dod o dan ddatganiadau ariannol y cronfeydd pensiwn priodol. Mae costau'r Gweithredwr a ffioedd eraill sy'n ymwneud â'r buddsoddiadau hyn yn cael eu rhannu rhwng pob un o'r wyth Cronfa CPLIL yn seiliedig ar eu cyfran ganrannol unigol o asedau PPC ac fe'u didynnir yn uniongyrchol o'r Gwerth Net Asedau (GNA). Nid yw'r rhain yn drafodion arian parod.

Dyledwyr Tymor Byr

2023/24 (£)	Disgrifiad	2024/25 (£)
942,666	Awdurdodau Cyfansoddol	940,695
2,281	Rhagdaliadau	1,413
944,947	**Cyfanswm Dyledwyr Tymor Byr**	**942,108**

Credydwyr Tymor Byr

2023/24 (£)	Disgrifiad	2024/25 (£)
0	Credydwyr Masnach	117,090
125,102	Croniadau	223,886
125,102	**Cyfanswm Credydwyr Tymor Byr**	**340,976**

Costau Archwilio

Yn 2024/25, roedd PPC yn wynebu'r ffïoedd isod yn ymwneud â'r archwiliad a'r arolwg ariannol, a oedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru.

2023/24 (£)	Disgrifiad	2024/25 (£)
6,297	Ffioedd Archwilio	6,404
6,297	**Cyfanswm Ffioedd Archwilio Allanol**	**6,404**

Trafodion Partïon Perthnasol

Mae gofyn i PPC ddatgelu trafodion perthnasol rhwng partneriaid, cyrff, unigolion neu bartïon perthnasol, a allai o bosib ddylanwadu ar benderfyniadau'r CBLl neu gael eu dylanwadu gan y CBLl. Mae gan PPC drefniadau yn eu lle sy'n gofyn i aelodau a Swyddogion adnabod a datgelu trafodion partïon perthnasol. Datgelir ac asesir y buddiannau hyn ar ddechrau pob cyfarfod CBLl.

Bydd angen datgelu unrhyw drafodion rhwng y partïon a amlinellir uchod er mwyn galluogi i ddefnyddwyr y datganiadau Ariannol hyn asesu i ba raddau allai annibyniaeth y CBLl o bosib gael ei effeithio neu ei ddylanwadu gan allu parti arall i drafod gyda'r Pwyllgor.

Yn ystod 2024/25, fel Awdurdod Cynnal PPC, anfonodd Cyngor Sir Caerfyrddin anfoneb dyledwr at bob un o'r wyth cronfa bensiwn CPLIL er mwyn adennill costau rhedeg PPC, fel y nodir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES). Mae'r tablau isod yn dangos cyfanswm gwerth y trafodion a godwyd yn ystod 2024/25 a'r balansau dyledwyr a oedd heb eu talu fel ar 31 Mawrth 2025.

2023/24 (£)	Disgrifiad	2024/25 (£)
225,698	Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg	240,704
225,698	Cronfa Bensiwn Clwyd	240,704
225,698	Cronfa Bensiwn Dyfed	240,704
225,698	Cronfa Bensiwn Gwynedd	240,704
225,698	Cronfa Bensiwn Powys	240,704
225,698	Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf (RhCT)	240,704
225,698	Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe	240,704
225,698	Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)	240,704
1,805,583*	**Cyfanswm Trafodion Partïon Perthnasol**	**1,925,628***

* Talgryniad

2023/24 (£)	Disgrifiad	2024/25 (£)
134,667	Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg	134,385
134,667	Cronfa Bensiwn Clwyd	134,385
134,667	Cronfa Bensiwn Gwynedd	134,385
134,667	Cronfa Bensiwn Powys	134,385
134,667	Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf (RhCT)	134,385
134,667	Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe	134,385
134,667	Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)	134,385
942,666*	**Trafodion Partïon Perthnasol heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn**	**940,695**

* Talgryniad

Cododd Cyngor Sir Caerfyrddin dâl am weinyddiaeth a gwasanaethau cymorth yn ystod 2024/25. Mae anfonebau hefyd wedi'u derbyn gan Gyngor Gwynedd am wasanaethau a ddarparwyd ganddynt ar ffurf gwasanaethau cyfieithu. Mae'r tabl isod yn dangos gwerth y gwasanaethau hynny a'r balansau dyledwyr a oedd heb eu talu fel ar 31 Mawrth 2025.

Trafodion Partïon Perthnasol - Credydwyr	Gwerth gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod 2024/25 £	Balans heb ei dalu fel ar 31 Mawrth 2025 £
Cyngor Sir Caerfyrddin	165,216	0
Cyngor Gwynedd	8,564	0
Cyfanswm	**173,780**	**0**

Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Swyddog Monitro yn Uwch-swyddogion o fewn Cyngor Sir Caerfyrddin.

Addasiad Cyfnod Blaenorol

Ni wnaed unrhyw addasiadau Cyfnod Blaenorol yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

.

Buddsoddiadau a Pherfformiad

Mae gan Awdurdodau Cyfansoddol PPC gyfanswm asedau o tua £25.8 biliwn (ar 31 Mawrth 2025), buddsoddir £19.3 biliwn yn is-gronfeydd presennol WPP, a amlinellir yn y tabl isod.

Is-gronfa	Gwerth yr ased	Rheolir gan	Meincnod perfformiad	Cronfeydd Cyfranogol **	Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol
Twf Byd-eang	£3.541 biliwn	Russell Investments	MSCI ACWI ND	Caerdydd 4% Dyfed 32% Gwynedd 12% Powys 2% RCT 50%	Baillie Gifford, Pzena, Pinestone a Numeric
Cyfleoedd Byd-eang	£3.402 biliwn	Russell Investments	MSCI ACWI ND	Caerdydd 16% Gwynedd 14% RCT 15% Abertawe 35% Thorfaen 20%	Morgan Stanley, Numeric, Sanders, Jacobs Levy, SW Mitchell, Nissay, Intermede ac Oaktree
Cyfleoedd y DU	£0.765 biliwn	Russell Investments	FTSE All Share	Caerdydd 21% Thorfaen 79%	Baillie Gifford, Ninety-One, J O Hambro, Liontrust a Fidelity
Marchnadoedd Datblygol	£0.273 biliwn	Russell Investments	MSCI Emerging Markets	Caerdydd 44% Gwynedd 23% Powys 6% Thorfaen 27%	Artisan, Bin Yuan, Barrow Hanley, Axiom, Numeric ac Oaktree
Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy	£1.524 biliwn	Russell Investments	MSCI ACWI ND	Caerdydd 9% Clwyd 24% Dyfed 12% Gwynedd 21% Powys 5% RCT 7% Abertawe 11% Thorfaen 11%	Sparinvest, Mirova, Neuberger Berman a Wellington
Credyd Byd-eang	£1.026 biliwn	Russell Investments	Bloomberg Barclays Global Aggregate Credit Index (GBP Hedged)	Caerdydd 15% Dyfed 33% Gwynedd 23% Powys 3% Thorfaen 26%	Metlife, Fidelity, Coolabah a Robeco
Llywodraeth Fyd-eang	£0.503 biliwn	Russell Investments	FTSE World Government Bond Index	Caerdydd 48% Thorfaen 52%	Bluebay a Colchester
Credyd aml-asedau	£0.849 biliwn	Russell Investments	3 month GBP SONIA + 4%	Caerdydd 20% Clwyd 39% Gwynedd 29% Powys 4% Abertawe 8%	ICG, Man GLG, BlueBay, Barings a Voya

Cronfa Credyd y Deyrnas Unedig	£0.727 biliwn	Waystone Management (UK) Limited	ICE BofA ML Eur-Stg plws 0.65%	RCT 100%	Fidelity
Cronfa Bondiau Adenillion Absoliwt	£0.533 biliwn	Russell Investments	3 month GBP SONIA + 2%	Gwynedd 76% Powys 14% Abertawe 10%	Wellington, Aegon, Oaktree a DNCA

* Gwerth Ased Dan Reolaeth (AUM) ar 31 Mawrth 2025

** % daliannau ar 31 Mawrth 2025

Perfformiad Buddsoddi

Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad yr is-gronfeydd ecwiti ac incwm sefydlog dros y 12 mis diwethaf. Roedd pob marchnad wedi darparu adenillion cadarnhaol dros y flwyddyn ond, ar wahân i'r gronfa Cyfleoedd Byd-eang, roedd yr holl gronfeydd eraill y tu ôl i'r meincnod neu'r targed.

	Perfformiad PPC dros 12 mis hyd at 31 Mawrth 2025 (Ffioedd Net)			
	Dyddiad Dechrau	**Cronfa %**	**Meincnod %**	**Cymharol %**
Is-gronfeydd Ecwiti				
Twf Byd-eang	Chwefror 2019	0.86	3.10	(2.24)
Cyfleoedd Byd-eang	Chwefror 2019	6.02	4.87	1.15
Cyfleoedd y DU	Hydref 2019	6.66	10.46	(3.80)
Marchnadoedd Datblygol	Hydref 2021	5.21	7.37	(2.16)
Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy	Mehefin 2023	0.21	4.87	(4.66)
Is-gronfeydd Incwm Sefydlog				
Credyd y DU	Awst 2020	2.63	3.09	(0.46)
Bond Llywodraeth Fyd-eang	Awst 2020	3.01	3.38	(0.37)
Credyd Byd-eang	Awst 2020	4.72	4.84	(0.12)
Cronfa Credyd Aml-asedau	Awst 2020	7.07	9.28^	
Bond Elw Absoliwt	Medi 2020	7.65	7.19^	

Ffynhonnell: Adroddiad Northern Trust fel yr oedd ar 31 Mawrth 2025

^ Mae'r rhain yn cynrychioli targedau perfformiad y Cronfeydd Credyd Aml-asedau a Bond Elw Absoliwt

Mae'r GS yn derbyn adroddiadau perfformiad chwarterol, chwe misol a blynyddol. Mae'r Gweithgor yn adolygu a herio perfformiad Rheolwyr Buddsoddi ar ran PPC. Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol hefyd yn gwneud eu dadansoddiad eu hunain o berfformiad buddsoddi PPC ar y lefel leol, a bydd hyn yn cynnwys presenoldeb rheolwyr yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Pensiwn. Mae Rheolwyr Buddsoddi'r Is-gronfeydd hefyd yn cynnal galwadau chwarterol pan mae aelodau'r GS yn gallu herio'r Rheolwr Buddsoddi a'r Rheolwyr gwaelodol. Mae 12 mis yn cael ei ystyried yn gyfnod rhy fyr i werthuso perfformiad buddsoddi, perfformiad buddsoddi dros gyfnod hwy yw'r flaenoriaeth ac mae hyn yn cael ei fonitro a'i werthuso er mwyn sicrhau addasrwydd parhaus yr holl is-gronfeydd.

Yn ystod 2023/24, lansiodd PPC y rhaglenni Buddsoddi Dyled Preifat, Seilwaith ac Ecwiti Preifat, gyda'r rhaglenni Buddsoddi Eiddo Tiriog i fod i gael eu lansio yn 2025/26. Gwerth tynnu i lawr y rhaglenni Buddsoddi yn y Farchnad Breifat ar 31 Mawrth 2025 oedd £1,096miliwn, bydd arian pellach yn cael ei drosglwyddo i'r rhaglenni hyn yn ystod 2025/26.

Rhaglenni Buddsoddi y Farchnad Breifat	**Awdurdodau Cyfansoddol sy'n Buddsoddi**	**Gwerth dynnwyd i lawr ar 31 Mawrth 2025**
Dyled Preifat	Caerdydd, Clwyd, Dyfed, Gwynedd, Powys, Abertawe a Thorfaen	£0.302 biliwn
Seilwaith – ar gau	Clwyd, Dyfed, Gwynedd, Powys, RhCT, Abertawe a Thorfaen	£0.235 biliwn
Seilwaith – penagored	Caerdydd, Gwynedd, Powys, Abertawe a Thorfaen	£0.445 biliwn
Ecwiti Preifat	Caerdydd, Clwyd, Gwynedd, Powys ac Abertawe	£0.114 biliwn
Cyfanswm		**£1.096 biliwn**

Yn ogystal â'r is-gronfeydd a'r rhaglenni buddsoddi amlinellwyd uchod, mae gan Awdurdodau Cyfansoddol PPC fuddsoddiadau goddefol gyda BlackRock Asset Management. Mae buddsoddiadau goddefol yr Awdurdodau Cyfansoddol yn gorwedd yn y Gronfa Gyfun i bob pwrpas, ond maent yn aros ym meddiant yr awdurdodau perthnasol ar ffurf polisïau yswiriant. Mae'r buddsoddiadau goddefol fel a ganlyn:

Awdurdod Cyfansoddol	**Gwerth Asedau ar 31/3/25**	**% o asedau pob Awdurdod Cyfansoddol**
Caerdydd a Bro Morgannwg	£0.768 bn	25%
Dyfed	£1.092 bn	31%
Gwynedd	£0.465 bn	15%
Powys	£0.179 bn	21%
RhCT	£0.824 bn	17%
Abertawe	£0.688 bn	20%
Gwent Fawr (Torfaen)	£1.049 bn	24%
Cyfanswm	**£5.065 bn**	

Mae'r GS bob amser yn edrych ar ffyrdd o ddatblygu mecanweithiau monitro perfformiad buddsoddi gan ganolbwyntio'n bennaf ar fetrigau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu a risg hinsawdd. Mae Hymans Robertson yn llunio adroddiadau chwarterol ar risg hinsawdd a materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ar gyfer yr is-gronfeydd ecwiti ac incwm sefydlog, sy'n defnyddio data trydydd parti o ran hinsawdd a materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu . Mae hyn yn galluogi'r Gweithgor Buddsoddi Cyfrifol i graffu ar safle presennol y portffolios, meincnodi portffolios yn erbyn cymaryddion mynegai a phennu'r camau y mae angen eu cymryd. Cyflwynir yr adroddiadau hyn i'r GS a'r CBLl bob chwarter.

Costau Cyfuno ac Arbedion ar Ffioedd

Mae costau amrywiol ynghlwm wrth gyfuno; mae costau trosglwyddo sy'n gostau untro sy'n digwydd pan gaiff y cronfeydd eu trosglwyddo i'r is-gronfeydd a cheir hefyd gostau rhedeg blynyddol. Dangosir costau trosglwyddo ar gyfer yr is-gronfeydd a gyfunwyd ar 31 Mawrth 2025 yn y tabl isod:

Is-gronfeydd	Yn benodol * £000oedd	Ymhlyg ** £000oedd	Cyfanswm y Costau Trosglwyddo £000oedd	Blwyddyn ailgodi tâl
Ecwitïau Byd-eang	2,197	15,009	17,206	2018/19
Ecwitïau'r DU	1,080	3,580	4,660	2019/20
Incwm Sefydlog	817	7,566	8,383	2020/21
Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy	1,068	820	1,888	2023/24

* Mae costau penodol yn cynnwys ffioedd rheolwr trosglwyddo, comisiynau masnachu a threthi.

** Mae costau ymhlyg yn cynnwys costau cyfle ac effaith ar y farchnad.

Doedd dim costau trosglwyddo yn 2024/25.

Cyfanswm y costau rhedeg blynyddol ar gyfer 2024/25 oedd £6,624m sydd yn cynnwys costau yr awdurdod cynnal a darparwr allanol.

Trwy gyfuno ac economïau maint, mae ffïoedd Rheoli Buddsoddi is wedi arwain at arbedion cost i Awdurdodau Cyfansoddol. Mae'r tabl isod yn dangos yr arbedion cost blynyddol ar gyfer Is-gronfeydd Ecwiti Byd-eang, Is-gronfa Ecwiti Cyfleoedd y DU, Is-gronfa Marchnadoedd Datblygol ac Is-gronfeydd Incwm Sefydlof y PPC:

	Gwerth Asedau ar 31/3/25 £000oedd	Arbedion Gros Blynyddol * £000oedd	Arbedion fel % o Werth Asedau
Ecwitïau Byd-eang	8,467,711	13,928	0.16%
Ecwitïau'r DU	765,495	677	0.09%
Emerging Markets	272,996	673	0.25%
Incwm Sefydlog	3,638,032	207	< 0.01%
Cyfanswm	**13,144,234**	**15,485**	**0.12%**

* Sylwer nad yw'r ffigyrau Gros yn cynnwys y costau trosglwyddo a rhedeg

Mae'r data uchod yn dangos, er bod costau cychwynnol uchel ar gyfer trosglwyddo asedau cronfeydd unigol i'r gronfa, fod yr arbedion blynyddol yn llawer mwy na'r costau rhedeg blynyddol, £8,861m (£15,485m llai £6,624m) yn 2024/25 (ac eithrio costau trosglwyddo).

Mae Buddsoddiadau Goddefol, a ddisgrifir ar dudalen 26, hefyd yn creu arbedion ffïoedd gwerth c£2m y flwyddyn.

Buddsoddi Cyfrifol

Mae Buddsoddi Cyfrifol, ynghyd ag ystyried a rheoli materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ar sail tystiolaeth, wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ers i ni gael ein sefydlu yn 2017. Mae gweithgareddau amrywiol wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn i ymgorffori arferion Buddsoddi Cyfrifol ym mhopeth rydym yn ei wneud a fydd, yn ein barn ni, yn arwain at ganlyniadau gwell i randdeiliaid y Gronfa.

Yn ystod y flwyddyn, datblygodd PPC nifer o argymhellion o Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan, gan gynnwys y Fframwaith Hinsawdd a'r rhestr sydd â ffocws ar yr hinsawdd, a datblygu'r is-gronfeydd incwm sefydlog. Cwblhaodd PPC ei hadroddiad hinsawdd cyntaf ar lefel y Gronfa Gyfunol yn unol â'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd ac mae'n bwriadu datblygu ei hadroddiadau ymhellach yn 2025/26 drwy ei Hadroddiad Effaith Cymru Gyfan cyntaf. Parhaodd PPC i gadw ei statws llofnodwr o ran Côd Stiwardiaeth Cyngor Adrodd Ariannol y DU am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.

Cafodd Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol PPC ei sefydlu yn 2020, er mwyn cefnogi datblygiad a gweithrediad gweithgarwch a pholisïau Buddsoddi Cyfrifol cyffredinol PPC. Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliodd yr Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol amrywiol weithgareddau a thrafodaethau, gan gynnwys:

- Ffurfio cynllun gwaith blynyddol PPC ar gyfer Buddsoddi Cyfrifol sy'n caniatáu i'r Bartneriaeth ddatblygu ei hamcanion Buddsoddi Cyfrifol
- Gweithio gyda'r rheolwyr buddsoddi a benodwyd gan PPC, y Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, ymgynghorwyr a darparwyr gwasanaethau eraill i sicrhau bod polisïau Buddsoddi Cyfrifol, Stiwardiaeth a Hinsawdd PPC yn cael eu gweithredu'n effeithiol
- Adolygu ein polisïau Buddsoddi Cyfrifol, Stiwardiaeth a Hinsawdd – gyda mewnbwn gan ein darparwyr gwasanaeth – i sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion y Gronfa.
- Monitro gweithgarwch Buddsoddi Cyfrifol, gan gynnwys metrigau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ac adroddiadau Pleidleisio ac Ymgysylltu, a herio hyn lle bo angen; gan gynnwys dadansoddiad wedi'i ddiweddaru o gysylltiad PPC â datgoedwigo ar draws yr Is-Gronfeydd ecwiti.
- Ystyried datblygiadau marchnad a rheoleiddio i sicrhau y gall PPC ystyried arferion gorau sy'n esblygu, yn ogystal ag ymateb i ymgynghoriadau perthnasol y llywodraeth.
- Trafodaethau ar nodau hinsawdd, gan gynnwys amcanion datgarboneiddio
- Trafodaethau ar themâu Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu perthnasol, gan gynnwys cyfrannu at broses dewis thema ymgysylltu Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC. Chwaraeodd PPC ran weithredol mewn dau o baneli cleientiaid Robeco yn ystod y flwyddyn, gyda nifer o feysydd ymgysylltu'n cael eu trafod yn weithredol, gan gynnwys hawliau dynol (gyda ffocws penodol ar ardaloedd y mae gwrthdaro yn effeithio arnynt ac sy'n wynebu risg uchel); bioamrywiaeth (gan gynnwys y cydgysylltiad rhwng hinsawdd a natur), ymgysylltu sofran (gan gynnwys ymgysylltu polisi); a newid hinsawdd (gan gynnwys mwynau o ran y broses drawsnewid a gwaith ymgysylltu cydweithredol).
- Sefydlu ein hegwyddorion uwchgyfeirio, mewn cydweithrediad â rheolwyr buddsoddiadau PPC a Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu.
- Cynrychioli PPC ar faterion Buddsoddi Cyfrifol, gan gynnwys gweithredu fel siaradwr mewn fforymau lleol ac mewn trafodaeth â sefydliadau dielw, megis Cyfeillion y Ddaear Cymru a Maint Cymru

Gwnaed gwaith sylweddol i ddatblygu cyfryngau buddsoddi newydd ar gyfer PPC, gan gynnwys y rhaglen eiddo tirol, sy'n cynnwys cyfran benodol ar gyfer buddsoddiad lleol ac effaith, a datblygu ateb goddefol pwrpasol o ran materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG).

Fel rhan o'i ymrwymiad i stiwardiaeth, parhaodd Robeco i ddarparu swyddogaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC, gan weithredu pleidleisio ar draws portffolio ecwiti gweithredol Partneriaeth Pensiwn Cymru, tra hefyd yn cynnal gweithgaredd ymgysylltu ar draws holl Is-gronfeydd gweithredol y Gronfa, yn ogystal â chronfeydd goddefol BlackRock. Aeth y gwaith yn ei flaen o ran defnyddio seilwaith pleidleisio Robeco ar ecwiti goddefol. Yn ystod 2024/25, fe fwriodd PPC dros 16,000 o bleidleisiau mewn dros 1,300 o gyfarfodydd ar draws ei Is-Gronfeydd ecwiti. Gweler isod grynodeb o weithgarwch pleidleisio PPC dros y flwyddyn:

Gweithgarwch pleidleisio	**2024/25**
Nifer y cyfarfodydd	1,362
Nifer yr eitemau ar yr agenda y pleidleisiwyd arnynt	16,379
Gyda'r rheolwyr Yn erbyn y rheolwyr	14,409 1,969
Cyfarfodydd lle'r oedd o leiaf un bleidlais yn erbyn rheolwyr	56%

Mae PPC yn cynnal nifer o themâu stiwardiaeth: (a) llywodraethu ar gyfer canlyniadau cynaliadwy; (b) cefnogi pobl; a (c) canolbwyntio ar sero net. Mae hyn yn golygu canolbwyntio ar graffu ac adrodd, gan ganiatáu ar gyfer mwy o gydweithio ar draws partneriaid PPC (gan gynnwys Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol). Mae'r tabl isod yn grynodeb o weithgarwch ymgysylltu PPC, drwy Robeco, dros y flwyddyn:



Ceir rhagor o wybodaeth am weithgarwch Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC, gan gynnwys manylion am themâu stiwardiaeth a fframwaith stiwardiaeth PPC, yn ein Hadroddiad Côd Stiwardiaeth blynyddol, a gyhoeddir ar ein gwefan.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Mae gan PPC bolisi cyfathrebu ar waith sy'n nodi sut y bydd PPC yn cyflawni ei strategaethau cyfathrebu mewnol ac allanol. Mae PPC yn cydnabod bod methu â chyfathrebu'n effeithiol yn peri risg berthnasol i PPC a budd pennaf rhanddeiliaid PPC, a gall y canlyniadau gynnwys camddealltwriaeth, gwneud penderfyniadau gwael ac oedi o ran amserlenni.

Mae PPC yn credu mewn bod yn agored a thryloyw ac mewn ymgysylltu'n rheolaidd â'i phrif randdeiliaid. I'r perwyl hwnnw mae'r PPC yn sicrhau bod cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar gael i'r cyhoedd trwy ffrwd gweddarlledu byw. Mae'r papurau cyfarfodydd hefyd ar gael i'r cyhoedd. Rydym hefyd yn cynnal cyfarfodydd Ymgysylltu Cadeiryddion y Byrddau Pensiwn yn rheolaidd er mwyn meithrin perthynas gyda rhanddeiliaid. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethon barhau i gyflawni ein protocolau ymgysylltu fydd yn sicrhau ymgysylltu a chydweithio parhaus ymhlith Awdurdodau Cyfansoddol a darparwyr PPC, a gwneir hyn trwy'r dulliau ymgysylltu canlynol:

Dulliau ymgysylltu	Amlder
Cyfarfod Adolygu'r Berthynas Strategol	Dwywaith y flwyddyn
Ymgysylltiad â'r CBLl	Chwarterol
Galwadau/Cyfarfodydd Perfformiad Rheolwyr	Chwarterol
Digwyddiadau Hyfforddiant	Chwarterol
Ymgysylltiad â'r Gweithgor Swyddogion	Chwarterol
Cyfarfodydd bob yn ail Wythnos	Bob pythefnos
Pwyllgorau Cronfa Bensiwn	Blynyddol
Diwrnodau Ymgysylltu â Rheolwyr	Blynyddol
Cyfathrebu ag Aelodau	Blynyddol
Ymgysylltu Cadeiryddion y Bwrdd Pensiwn	Dwywaith y flwyddyn
Ymgysylltu drwy'r wefan a LinkedIn	Parhaus

Cynhelir yr ymrwymiadau hyn trwy gyfuniad o gyfarfodydd personol, rhithwir a hybrid.

Mae gwefan PPC yn cael ei diweddaru'n rheolaidd ac mae'n parhau i fod yn ddull gwych o wneud y canlynol: dysgu a deall mwy am y gronfa; cadw golwg ar ein gweithgareddau diweddar; a gweld ein polisïau, ein gweithdrefnau a'n trefniadau llywodraethu. Mae'r wefan i'w gweld yma:
https://www.partneriaethpensiwncymru.org/

Mae gan PPC dudalen LinkedIn hefyd sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd:
https://www.linkedin.com/company/wales-pension-partnership-wpp/

Bydd PPC yn parhau i adolygu a datblygu ei dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu.

Hyfforddiant

Mae gan PPC ei pholisi hyfforddi ei hun sy'n nodi dull PPC o ymdrin â hyfforddiant a gofynion. Mae'r polisi'n amlinellu'r strategaeth y mae PPC wedi'i rhoi ar waith i sicrhau bod gan ei staff a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau y sylfaen wybodaeth ofynnol i gyflawni eu rolau a gwneud penderfyniadau a fydd yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i randdeiliaid PPC. Mae'r polisi hyfforddi hwn a chynlluniau hyfforddi blynyddol PPC wedi'u cynllunio i ategu hyfforddiant presennol yr Awdurdodau Cyfansoddol; ni fwriedir iddo ddisodli na diystyru'r angen am hyfforddiant ar lefel leol a'i bwysigrwydd. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn parhau i fynd i'r afael ag anghenion hyfforddi ar lefel leol tra bydd PPC yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau cyfuno PPC.

Yn ystod 2024/25, parhaodd PPC i gynnal ei sesiynau hyfforddi yn rhithwir a chynhaliwyd chwe digwyddiad hyfforddi dros y flwyddyn. Roeddent yn agored i aelodau pwyllgorau pensiwn a byrddiau pensiwn yr awdurdodau cyfansoddol, yn ogystal â swyddogion ac aelodau'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu, ac roedd llawer yn bresennol yn yr holl sesiynau. Y pynciau a drafodwyd yn ystod 2024/25 oedd:

- Gwybodaeth am Gynnyrch – Buddsoddiadau cyfun y Bartneriaeth
- Trosolwg o ddiogelwch seibr ac ystyriaeth i'r Bartneriaeth
- Polisiau – Buddsoddi Cyfrifol, Hinsawdd a Stiwardiaeth
- BC – Cynllunio taith Sero Net
- BC – Metrigau Hinsawdd
- Cynnydd cronfeydd CPLlL eraill a Chyfleoedd i Gydweithio
- Unrhyw ddatblygiadau rheoleiddio / canllawiau newydd

Hefyd, darparwyd hyfforddiant cyflwyno i aelodau newydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

Ym mis Rhagfyr 2024 rhoddwyd holiadur/asesiad gofynion hyfforddi i holl aelodau'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu a swyddogion. Mae'r pynciau a amlinellir isod yn seiliedig ar flaenoriaethau amserol cyfredol PPC ac yn deillio o ddadansoddiad o'r ymatebion i holiadur/asesiad gofynion hyfforddi PPC.

Yn ystod 2025/26 bydd PPC yn cynnal hyfforddiant ar y pynciau canlynol:

- Gwybodaeth am Gynnyrch
  - Dosbarthiadau asedau Credyd Preifat a Seilwaith
  - Buddsoddiadau Lleol / Effaith o fewn dosbarthiadau asedau Marchnadoedd Preifat
- Stiwardiaeth
  - Pleidleisio ac Ymgysylltu
  - Cod stiwardiaeth a gofynion adrodd
- Buddsoddi Cyfrifol (BC)
  - Bioamrywiaeth a Chyfalaf Naturiol
  - Senarios Hinsawdd a Dyletswydd Ymddiriedol
- Ymgynghoriad Pwlio a Gofynion Rheoleiddio
  - Ymgynghoriad Pwlio
  - Unrhyw ddatblygiadau rheoleiddio / canllawiau newydd

Gellir gweld y Polisi Hyfforddi a Chynllun Hyfforddi Llawn PPC ar gyfer 2025/26 ar wefan PPC.

Diweddglo

Fel y gwelwch, mae PPC wedi cael blwyddyn gynhyrchiol iawn arall. Hoffem ddiolch i holl staff PPC, yr Awdurdodau Cyfansoddol, ymgynghorwyr a darparwyr sydd wedi gwneud hyn yn bosibl. Mae'r Gweithgor Swyddogion a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu hefyd yn haeddu sylw arbennig am eu gwaith a'u cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.

Er ei bod yn bwysig cydnabod cyflawniadau'r 12 mis diwethaf, mae ein ffocws eisoes wedi symud i'r 12 mis nesaf. Fel rhan o'r gwaith sydd i'w wneud yn ystod y 12 mis nesaf bydd PPC yn parhau i ddatblygu fel Cronfa fel y gall barhau i ddiwallu a hwyluso buddiannau ac anghenion yr Awdurdodau Cyfansoddol a chyflawni'r gofynion a nodir yn ymgynghoriad y Llywodraeth, sef CPLIL: Addas ar gyfer y Dyfodol – Project Snowdon.

Mae cynllun gwaith o'r meysydd y bydd PPC yn canolbwyntio arnynt yn ystod 2025/26 wedi'i ddatblygu ac mae'n rhan o'n cynllun busnes 2025-2028 sydd ar gael ar ein gwefan.

Bydd y prif uchafbwyntiau dros y flwyddyn nesaf yn cynnwys:



Rydym yn gobeithio eich bod wedi mwynhau ein Adroddiad Blynyddol eleni ac rydym yn edrych ymlaen at allu rhoi diweddariad pellach i chi y flwyddyn nesaf. Mae rhagor o wybodaeth am PPC a diweddariadau parhaus ar gynnydd PPC ar gael ar y wefan a'r dudalen LinkedIn.

Manylion Cyswllt

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am unrhyw beth yn neu am y cynllun busnes hwn,

dylech gysylltu â Phartneriaeth Pensiwn Cymru:

Cyfeiriad Post - Partneriaeth Pensiwn Cymru

Cyngor Sir Caerfyrddin

Adain y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn

Neuadd y Sir

Caerfyrddin

SA31 1JP

E-bost - PartneriaethPensiwnCymru@sirgar.gov.uk

Ceir rhagor o wybodaeth am PPC a diweddariadau cyson ar gynnydd PPC ar y wefan a'r dudalen LinkedIn.

Mae'r wefan a'r dudalen LinkedIn i'w gweld yma:

https://www.partneriaethpensiwncymru.org/

https://www.linkedin.com/company/wales-pension-partnership-wpp/